# Seren Hafren

*Papur Bro Dyffryn Hafren*

Rhifyn 409 AWST / MEDI 2020 60c
Y Seren nesaf: Cyfraniadau: Medi 18 Papur Allan: Hydref 1

**I DDARLLENWYR Y SEREN**

Diolch yn fawr i chi gyd am eich amynedd a'ch dealltwriaeth dros y misoedd diwethaf yma. 'Rydym wedi cynhyrchu y Seren ar lein yn unig am bum mis bellach OND 'rydym yn gobeithio dechrau printio copiau a'u gwerthu yn y siopau eto o fis Medi ymlaen. Mae wedi bod yn anodd ond gyda'n gilydd 'rydym yn dal i fedru cadw mewn cysylltiad â'r rhan fwyaf ohonoch ac ymddiheurwn yn ddiffuant i chi sydd wedi methu ei dderbyn ar lein.

## MAE HAUL AR FRYN

**Ond dydy'r gelyn ddim wedi mynd i ffwrdd**
**Cofiwch yr un stori, rhaid bod yn ofalus**
**Edrychwch ar ôl eich hunain, eich teulu a'ch cymdogion**
**A dydy'r neges ddim wedi newid**
**Golchwch eich dwylo a Golchwch eich dwylo!**

## MAE HAUL AR FRYN



# Myfyrdod y Mis

**Diolch yn fawr i'r Parch. Jenny Garrard am y myfyrdod amserol a diddorol hwn.**

Sian a Sion, Dilwyn a Dilys - Rydym wedi clywed llawer iawn o straeon yn ddiweddar am bobl gyffredin nad oedden ni erioed wedi clywed amdanyn nhw o'r blaen, pobl sydd wedi gofalu am eraill yn ystod cyfnod y coronafeirws. Felly, pam fy mod i wedi dewis siarad am ddyn o'r enw "Epaffroditus"? Pwy oedd o? Gydag enw fel yna, dydy hi ddim yn debyg ei fod o'n rhywun wedi ei fagu yng Ngharno!

Wel, yn y Beibl, mae yna deyrnged hyfryd iddo fel gofalwr. Mae ei hanes yng ngeiriau Paul at y Philipiaid, Pennod 2. Roedd Paul yn y carchar yn Rhufain, ac yn y dyddiau hynny, os nad oedd teulu neu ffrindiau yn dod â bwyd i chi, doeddech chi ddim yn bwyta. Felly roedd pobl Philipi wedi anfon un o'u pobl eu hunain, y dyn yma, Epaffroditus, gyda rhoddion i Paul, a hefyd i ofalu amdano, Roedd angen dyn dewr iawn i fod yn gynorthwyydd i ddyn fel Sant Paul, oedd yn wynebu achos llys yn ei erbyn am drosedd ddifrifol. Pa un bynnag, tra'n gofalu am Paul tarawyd Epaffroditus yn wael, hwyrach gyda'r haint oedd yn rhemp yn aml yn Ninas Rhufain. Bu bron iddo farw, ond yr oedd Paul yn hynod o ddiolchgar i'r Arglwydd am ei arbed.

Felly, geiriau Paul yn adnod olaf Pennod 2 neidiodd allan ataf oddi ar y dudalen; **"....fentrodd ei fywyd, i gyflawni drosof y gwasanaeth na allech chwi mo'i gyflawni.."** Yn Saesneg mae Paul yn eu hatgoffa fod Epaffroditus wedi rhoi iddo; "...**the help that you yourselves could not give"** .

Rwyf wedi bod mor ymwybodol yn ystod y misoedd diweddar hyn o'r bobl sydd wedi cynorthwyo eraill yn fy lle i; y rhai sydd wedi siopa'n gyson dros fy mherthnasau oedrannus sy'n byw ymhell oddi wrthyf, a'r postmyn a'r negesyddion (*couriers*) sydd wedi mynd â rhoddion a llythyrau i'r rhai na allwn i ymweld â nhw. Yn fwyaf teimladwy, hwyrach, bum yn ymwybodol iawn o'r nyrsys sydd wedi gorfod dal dwylo'r rhai oedd yn wael neu'n marw, a gofalu am eu anghenion emosiynol ac ysbrydol pan nad oedd eu teuluoedd neu'r Gweinidog yn bresennol. Hwyrach mai un o'r gwersi yr ydw i wedi ei dysgu yn ystod y cyfnod clo, ydy i sylweddoli na allaf i, bob amser, fel person 70+ annibynol, iach (ar hyn o bryd) fod yr un sydd ar gael i gynorthwyo. A dweud y gwir, yr unig gymorth sicr sydd ar gael i ni yw'r cymorth a ddaw oddi wrth yr Arglwydd, ein Duw. Mewn sawl ffordd, rhan o bwrpas Duw wrth anfon ei Fab i'r ddaear hon, oedd rhoi **"y gwasanaeth na allem ni mo'i gyflawni"** i'n gilydd. Daeth Iesu, i'r ddaear hon oherwydd faint bynnag yr ydym yn caru eraill, yn aml ni allwn estyn i ddyfnderoedd tristwch ac ing meddyliau a chalonnau cythryblus. Yn syml, rydyn ni'n gweddïo ac yn dibynnu ar Dduw i'w helpu i ddarganfod tangnefedd, gan wybod, beth bynnag sy'n digwydd, eu bod yn cael eu dal yn Ei gariad a'i ofal. Daeth Iesu, oherwydd bod dynoliaeth wedi dangos ei bod yn analluog i ofalu am fyd Duw. Felly rhoddodd Iesu ei Ysbryd Glân inni i'n harwain a'n tywys i'w ffyrdd o gyfiawnder a heddwch. Daeth Iesu, oherwydd na allem, ac ni allwn, ryddhau ein hunain oddi wrth ein pechod (y gwaethaf o afiechydon). Dim ond Iesu, drwy ei Groes, a allai roi'r maddeuant hwnnw inni, a'n hadfer i'r hyn y mae Duw yn bwriadu inni fod. Ac o'r diwedd, gall Iesu, ac Ef yn unig, roi bywyd tragwyddol inni, sef rhodd olaf ein Tad nefol cariadus. Felly ydw, rydw i wedi dysgu bod yn ddiolchgar am yr help y mae llawer o bobl wedi'i roi i eraill, pan na allwn i wneud hynny. Ond rydw i hyd yn oed yn fwy diolchgar am bopeth y mae Duw wedi'i roi inni yng Nghrist Iesu na allem ni, fel bodau dynol, ei wneud dros ein gilydd.

## Y DRENEWYDD

Diolch i'r unigolion sy'n danfon newyddion o'r Drenewydd. Rydym yn dal i chwilio am berson i fod yang ngofal Colofn y dref

### PENBLWYDD HAPUS HAF

Bu Haf Leonard, Trysorydd, Seren Hafren yn dathlu penblwydd arbennig dydd Sul Mehefin y 26ain.
Bu'r teulu yn weithgar gyda'r ardduniadau y balŵns a'r baneri o gwmpas tu fewn a thu allan y tŷ.
Bu'r merched, Amy a Bethan yn ddiwyd yn paratoi y danteithion a chacennau blasus iawn.
Cafodd lu o gardiau ac anrhegion a negeseuon ar Zoom oddi wrth y teulu o bellder.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau oddi wrth y pwyllgor a ffrindiau Seren Hafren.






## CARNO

Diolch i'r unigolion sy'n danfon newyddion i ni o Garno

### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Chloe Keel o'r Drenewydd ar dderbyn anrhydedd LLB yn y Gyfraith o Brifysgol Aberystwyth.

Mae Chloe yn ferch i Tony a Nia Keel ac yn wyres i Mary a'r diweddar Roy Williams, Trem y Noddfa, Carno.

---



### BETH AM HYSBYSEBU YN Y SEREN?

| | |
|---|---|
| Tudalen llawn | £80 |
| Hanner tudalen | £40 |
| Chwarter tudalen | £20 |
| Wythfed tudalen | £10 |
| Hysbyseb Bach | £5 |



## CERDD Y MIS

### Y BORDER BACH

Gydag ymyl troedffordd gul
A rannai'r ardd yn ddwy
Roedd gan fy mam ei border bach
O flodau perta'r plwy.

Gwreiddyn bach gan hwn a hon
Yn awr ac yn y man,
Fel yna'n ddigon syml y daeth
Yr Eden fach i'w rhan.

A, rhywfodd, byddai lwc bob tro,
Ni wn i ddim paham,
Ond taerai, nhad na fethodd dim
A blannodd llaw fy mam.

Blodau syml pobol dlawd
Oeddynt, bron bob un
A'r llysiau gwyrthiol berchid am
Eu lles yn fwy na'u llun.

Dacw nhw, y lili fach,
Mint a theim a mwsg
Y safri fach a'r lafant pêr
A llwyn o focs ynghwsg.

Dwy neu dair briallen ffel
A daffodil, bid siwr,
A'r cyfan yn y border bach
Yng ngofal rhyw "hen ŵr".

Dyma nhw'r gwerinaidd lu
Heb un yn gwadu'i ach
A gwelais wenyn gerddi'r plas
Ym mlodau'r border bach.

O bellter byd rwy'n dod o hyd
I'w gweld dan haul a gwlith,
A briw i'm bron fu cael pwy dydd
Heb gennad yn eu plith.

Hen estron gwyllt o ddant y llew,
A dirmyg lond ei wên
Sut gwyddai 'r hen droseddwr hy'
Fod mam yn mynd yn hen?

Crwys

# URDD GOBAITH CYMRU CYLCHGRONNAU AM DDIM

## CYLCHGRONAU'R URDD AM DDIM I BLANT CYMRU!

Mae Urdd Gobaith Cymru wedi cyhoeddi y bydd eu cylchgronau i gyd yn troi'n ddigidol am ddim i bawb am y flwyddyn ysgol nesaf, 2020-21. Yn ogystal, bydd cylchgrawn poblogaidd ***Cip*** o Fedi ymlaen yn cynnwys cylchgrawn ***Mellten*** o fewn y tudalennau, eto am ddim!

Mae'r Urdd wedi bod yn cynhyrchu cylchgronau ers dechrau'r mudiad ac erbyn hyn yn creu tri gwahanol – *Cip* ar gyfer darllenwyr cynradd, ***Bore Da*** ar gyfer dysgwyr Cymraeg cynradd a ***IAW*** ar gyfer dysgwyr Cymraeg uwchradd. Maent yn cael eu darllen yn eang a'u defnyddio mewn dosbarthiadau ysgolion led led Cymru.

Meddai Mari Williams, Rheolwr Cyfathrebu'r Urdd: "Rydyn ni yn ofnadwy o falch y byddwn ni yn gallu cynnig ein cylchgronau am ddim i blant ac ysgolion Cymru flwyddyn nesaf a bod y Cyngor Llyfrau a Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'r cynllun newydd. Golyga hyn bod gennym y potensial i gyrraedd pob un plentyn yng Nghymru gyda chylchgrawn Cymraeg apelgar a lliwgar, am ddim! Datblygiad cyffrous arall wrth gwrs ydi bod *Mellten* rŵan ar gael o fewn tudalennau *Cip*, fydd yn un ffrwydrad cyffrous i'r darllenwyr!"

Meddai Huw Aaron, sy'n gyfrifol am *Mellten*: "Rwy'n gyffrous iawn bod *Mellten* a *Cip* yn cyfuno, ac yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Urdd i greu cylchgrawn gorau'r byd! Gobeithio trwy hyn y bydd llawer iawn mwy o blant yn cael cyfle i joio'r cymeriadau a straeon sydd wedi bod yn rhan o *Mellten* dros y pedair mlynedd ddiwethaf - fel Gwil Garw, Bloben, Cadi, Gari Pêl, Boc - a'r lleill!"

Mae'r cyfnod diweddar wedi amlygu'r angen am gynnwys Cymraeg cyfleus a hawdd i'w gyrraedd ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn arbennig dysgwyr sydd o bosib ddim yn ymwneud â'r iaith y tu allan i'r ysgol. Bydd y tri chylchgrawn ynghyd â chynnwys ychwanegol ar y we yn golygu bod gweithgareddau a hwyl, gweithlenni a chomics ar gael yn rhad ac am ddim i bawb.

Bydd angen i bawb sydd am dderbyn y cylchgronau danysgrifio ar urdd.cymru/cylchgronau gyda chyfeiriad e-bost. Bydd y cylchgronau yn cael eu hanfon wedyn yn rhad ac am ddim ar e-bost. Yn ogystal, bydd cynnwys ychwanegol ar y wefan ynghyd ag ôl rifynnau. Y gobaith yw y bydd ysgolion yn rhoi'r cylchgronau ar eu safleoedd dosbarth digidol, yn rhannu dolenni gyda rhieni a gofalwyr ac yn eu defnyddio yn eang yn y dosbarth. Bydd elfennau ee taflenni lliwio a gweithlenni yn cael eu rhoi ar y wefan hefyd er mwyn gwneud lawrlwytho ar gyfer argraffu yn haws.

Dywedodd Arwel Jones, Pennaeth Adran Grantiau Cyhoeddi Cyngor Llyfrau Cymru: **"**Mae'n braf gwybod y bydd rhai o gymeriadau Mellten yn parhau i gael hwyl rhwng cloriau Cip, ac rydyn ni'n falch iawn o'r bartneriaeth newydd yma rhwng y ddau. Mae llwyddiant y cydweithio eisoes wedi'i amlygu drwy'r sesiynau #CriwCelf ar-lein a gynhaliwyd gan Huw Aaron, yn ystod y cyfnod clo. Ar adeg anodd, bydd cynnig Cip/Mellten a chylchgronau eraill

fis Medi 2020 yn adnodd hynod o werthfawr i blant a phobl ifanc ar hyd a lled Cymru."

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am noddi tudalennau Seren a Sbarc, sef y cymeriadau hoffus sy'n annog plant i siarad Cymraeg, yng nghylchgronau Cip a Bore Da.

Meddai llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru: "Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu cyhoeddi cartŵn a gweithgareddau Seren a Sbarc yng nghylchgronau'r Urdd er mwyn helpu plant Cymru i gyrraedd targedau'r Siarter Iaith. Rydym yn hapus iawn i gadarnhau byddwn yn parhau i gefnogi cyhoeddi'r cylchgronau yn ddigidol yn ystod 2020-21. Golyga hyn y bydd mwy o blant Cymru, boed o gartrefi Cymraeg neu di-Gymraeg, yn derbyn deunydd darllen Cymraeg am ddim."

Bydd y trefniant newydd yn dechrau ym Medi 2020 gyda'r Urdd yn casglu tanysgrifiadau nawr a thros weddill yr haf.

---


## Rotari Llanidloes Prosiect Rhyddiaith a Barddoniaeth

Yn galw beirdd amatur o bob oed ac o bob ardal! Hoffem gyhoeddi llyfr o gerddi (os yn bosib) ond hefyd ddarnau o ryddiaith (250 o eiriau neu lai) i gyd-fynd â'r Diwrnod Barddoniaeth Genedlaethol ar 1 Hydref. Byddai'r elw o werthu'r llyfrau yn galluogi'r Rotari i gefnogi mentrau yn y gymuned leol yn ac o amgylch Llanidloes.

Y thema fydd
" Y Cyfnod Glo ("Lockdown") – Hanes Yfory"
o'ch safbwynt chi

Gellir anfon ceisiadau rhwng dydd Mercher 1 Gorffennaf a dydd Llun 31 Awst.
Postiwch eich cynnig yn un o'r blychau casglu naill ai yn
The Great Oak Bookshop neu Woosnam's, neu anfonwch ef drwy e-bost at
LlaniRotaryPoem@gmail.com

Gallwch ymgeisio am ddim ac mae croeso i bawb o Lanidloes a thu hwnt anfon cynnig.

Gellir ysgrifennu yn y Gymraeg neu'r Saesneg a gellir cynnwys lluniau. Bydd y ceisiadau yn cael eu hystyried o dan bum dosbarth oed gwahanol:

Y Cyfnod Sylfaen (hyd at 7 oed)
Gyfnod Allweddol 2 (7-11)
Gyfnod Allweddol 3 (11 -14)
Gyfnod Allweddol 4 (14-16)
Oedolion (dros 16)

Edrychwch ar ein tudalen Facebook i weld mwy o fanylion a'r ffurflen gais/caniatâd y bydd rhaid ei llenwi.

Rotary
NATIONAL POETRY DAY 2020
See It Like a Poet


## DATHLIADAU MUDIAD MEITHRIIN YN 50 OED – APÊL AM LUNIAU A HANESION

Bydd Mudiad Meithrin yn dathlu ei ben-blwydd yn 50 flwyddyn nesaf (2021). Felly heb os, mae'r Mudiad yn cynllunio ar gyfer nifer o ddigwyddiadau gwahanol i ddathlu'r achlysur.

Meddai Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin:

"*Mae cyrraedd carreg filltir mor bwysig yn achos dathlu ac yn gyfrwng i gofio, diolch a chydnabod y gwaith a'r ymdrech a fu gan wirfoddolwyr a gan staff dros 5 degawd. Bydd hyn yn ein helpu i barhau i dyfu dros yr hanner canrif nesaf fel y gall mwy o blant Cymru – os nad pob plentyn – elwa ar ofal ac addysg gynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.'*Bwriedir casglu nifer o luniau diddorol, hanesion a digwyddiadau sydd yn gysylltiedig â'r Mudiad a phrofiadau unigolion dros y blynyddoedd hyd at heddiw, er mwyn ychwanegu at yr amryw o ddathliadau y bwriedir eu cynnal gan y Mudiad.

Os oes gan unrhyw un o'r cyhoedd lun, hanes neu brofiadau yr hoffent eu rhannu, anogir chi i gysylltu gyda'r Mudiad drwy e-bostio marchnata@meithrin.cymru gan nodi'r flwyddyn, enwau'r bobl yn y llun ac ychydig o wybodaeth i gyd-fynd os gwelwch yn dda.

(Parhad ar y Dudalen nesaf)

(Parhad o'r Dudalen flaenorol)

Mae'r Mudiad yn awyddus i glywed gan unrhyw un sydd wedi mynychu un o'r Cylchoedd Meithrin cyntaf yn ei hanes yn ogystal - sef y rhai oedd mewn bodolaeth cyn 1971. Eto fe hoffem eich hannog i gysylltu, eto drwy'r e-bost sydd wedi ei nodi uchod.

**CYMORTH MUDIAD MEITHRIN I'R CYLCHOEDD MEITHRIN YN YSTOD PANDEMIG COVID -19**

Mae Mudiad Meithrin wedi bod yn brysur iawn dros y misoedd diwethaf yn darparu cymorth i Gylchoedd Meithrin yn sgil pandemig Covid-19 – boed hynny drwy gynnig cymorth ariannol brys i'r Cylchoedd allu oroesi'r cyfnod hwn, neu drwy se-fydlu llu o adnoddau newydd yn ddigidol ar gy-fer helpu rhieni/ gwarchodwyr barhau i gynnal y Gymraeg adref gyda plant. Ers mis Mawrth, mae Mudiad Meithrin wedi: .

- anfon dros 45 o fwletinau e-bost (2 neu 3 yr wythnos ar gyfartaledd) i'n holl aelodau i'w diweddaru gyda gwybodaeth gyfredol am y sefyllfa gan gynnwys sut i roi staff ar saib, gwybodaeth am grantiau a ffynonellau ariannol eraill, polisïau ac adnoddau, gweithdrefnau ail-agor ac unrhyw newidiadau neu wybodaeth pwysig o ddiddordeb iddynt
- agor cronfa Grant Argyfwng y Mudiad er mwyn gallu cynnig cymorth ariannol i Gylchoedd Meithrin
- cynnal ymgyrch godi arian ar-lein trwy '*Just Giving'* ar gyfer coffrau'r Gronfa Argyfwng
- creu 3 Llyfr Bach Piws, sef llyfrynnau yn cynnwys canllawiau ar bynciau arbenigol ar gyfer cynorthwyo Cylchoedd Meithrin yn ystod y pandemig a llawlyfrau penodol ar y cynllun saib
- sefydlu 'Clwb Cylch' – sef arlwy sy'n dod â sesiwn cylch i'r cartref trwy sawl platfform digidol yn ddyddiol ers 1 Mehefin – i barhau tan ddiwedd Awst (cafodd y sesiynau eu gweld dros 28 mil o weithiau gan bobl yn yr wythnos gyntaf)
- cynnal Gŵyl Dewin a Doti Ddigidol gyda Martyn Geraint fel rhan o arlwy **'Wythnos Cymraeg yn y Cartref'** ym Mehefin (mae'r fideos cael ei weld dros 7,800 o weithiau hyd yma)



- denu 1,293 o bobl i ymuno yn ein grŵp newydd ar Facebook, 'Miri Meithrin' - grŵp i rannu syniadau a gweithgareddau i rieni a/neu gwarchodwyr wneud gyda phlant bach
- lobïo ar ran y sector mewn pwyllgorau lefel uchel o fewn Llywodraeth Cymru, trafod gydag Awdurdodau Lleol a phartneriaid fel Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn, WCVA, y Comisiwn Elusennau, y Loteri Genedlaethol, CBI Cymru
- cynnig arlwy amser stori a chân 'Cymraeg i Blant' dros Zoom, Facebook Live a Trydar gan ddechrau gwasanaeth newydd 'Fy Mabi a Fi' i rieni newydd
- darparu Gwasanaeth Swyddog Cefnogi dros y ffôn, Skype ac e-bost
- darparu Gwasanaeth Adnoddau Dynol, Cyllid, Gweinyddol, Marchnata a Pholisi dros y ffôn, Skype, e-bost ac mewn syrjeris pwrpasol
- cynnig gweminarau 'iechyd a lles' ar sut i ymdopi gyda newid mewn cydweithrediad â 'Canna Consulting' ac ym mis Gorffennaf penderfynodd y Mudiad i gynnig:

- aelodaeth am ddim i'n holl aelodau am y flwyddyn 2020-2021
- Agor grant newydd gwerth £250,000 o'r enw Grant Ail-agor ac Ail-adeiladu i Gylchoedd Meithrin sy'n wynebu heriau ariannol

Meddai Prif Weithredwr Mudiad Meithrin, Dr Gwenllian Lansdown Davies:

*"Mae Cylchoedd Meithrin a meithrinfeydd – adnoddau cymunedol pwysig - wedi wynebu sawl her ddi-gynsail yn ystod y cyfnod clo ac mae Mudiad Meithrin wedi ymdrechu i wneud popeth o fewn ein gallu i'w cynorthwyo. Mae'r angen am gronfa grantiau gan Lywodraeth Cymru yn parhau er mwyn galluogi lleoliadau gofal plant i ail-agor ac ail-ddechrau darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd. Byddwn yn parhau i bwyso am hynny.*"

Dyma ambell enghraifft o'r negesuon mae Mudiad Meithrin wedi eu derbyn gan staff Meithrinfeydd a Cylchoedd Meithrin:

Eleri Jones, Meithrinfa Seren Fach yn Nolgellau:

*"Dim ond nodyn sydyn i ddangos fy ngwerthfawrogiad o'r holl wybodaeth rydym wedi ei dderbyn gennych yn ystod y cyfnod anodd hwn.*

*Dwi am ichi fod yn ymwybodol fy mod yn gwerthfawrogi pob e -bost, mae wedi bod yn gymorth ag yn ffrind(mewn gwirionedd!) imi wrth orfod gweithio o adre a cheisio cadw linc gyda fy staff a rhieni. Gobeithiwn y bydd goleuni ym mhen draw y twnel tywyll du yma yn fuan."*

Wendy Phillips, Cylch Meithrin Crymych:

*"Ar rhan y Cylch hoffwn estyn ein diolch i bawb ym Mudiad Meithrin sydd wedi gweithio'n galed i sicrhau cefnogaeth i ni y staff a swyddogion y Cylch. Hefyd, rydych chi yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Sir yn clywed barn a safbwynt y Mudiad, a mae hyn yn bwysig iawn.*


*Rydym yn wir yn gwerthfawrogi eich darpariaeth o wybodaeth eang pwysig iawn sydd yn cael ei ddosbarthu trwy ebyst, a hyn yn newid o ddydd i ddydd oherwydd y sefyllfa. Does dim siwt beth a gormod o e-byst!"*

Jayne Williams, Cylch Meithrin Hywel Dda:

"*Diolch yn fawr iawn am yr ebyst i gyd! Help mawr i staff a phwyllgor y Cylch a rydym yn gwerthfawrogi eich gwaith caled yn ystod cyfnod ansicr ac anodd iawn. Gobeithio bod staff i gyd yn Aberystwyth yn cadw'n saff!"*

## O'R EGLWYSI

**Mae'r gwasanaethau i gyd wedi eu gohirio ar hyn o bryd.**
**Gweddiwn i Dduw y daw pethau yn ôl yn normal yn o fuan.**



Mae gwasanaeth ar Radio Cymru bob bore dydd Sul am hanner awr wedi deg y bore. Tiwniwch fewn.

Mae nifer o'r egwlysi yn paratoi gwasanaethau ar lein hefyd. Mae'r Parchedig Nia Wyn Morris yn arwain gwasanaeth ar lein bob wythnos am 10 o'r gloch ar YouTube.

Mae gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru "Gwasanaeth" ar y ffôn bob wythnos – yng Nghymraeg neu Saesneg. Ffoniwch 02920 101 564 ... sydd ar gael unrhyw amser. Rhywbeth tua ugain munud o hyd ydyw.

Mae gweinidog newydd yr ardal, Y Parch Iestyn ap Hywel – gweithiwr Cristnogol yng Nghanolfannau Y Cilgant, Y Drenewydd; Heol China, Llanidloes; Maengwyn, Machynlleth; a Gweinidog yn Henaduriaeth Maldwyn, yn rhoi pregethau, fideos, ayyb. Dyma'r linc i chi gael tiwnio fewn.:- bit.ly/dyfihafren.

HYSBYSEBWCH
YN Y
SEREN

Powys

## ARWEINYDD YN DIOLCH O WAELOD CALON I'R LLUOEDD ARFOG

Diwrnod y Lluoedd Arfog ddydd Sadwrn 27 Mehefin, mae Arweinydd Cyngor Sir Powys, y Cynghorydd Rosemarie Harris wedi rhoi 'diolch o waelod calon' i filwyr y genedl.

Dechreuodd y dathliadau ddydd Llun 22 Mehefin gan godi baner Diwrnod y Lluoedd Arfog ar adeiladau a thirnodau enwog ym mhob cwr o'r wlad. Yng Nghymru, roedd y dathliadau i'w cynnal ar 4 a 5 Gorffennaf yn Sioe Awyr Cymru, ond erbyn hyn bydd yn ddathliad digidol.

Dywedodd y Cynghorydd Harris, sydd hefyd yn Hyrwyddwr Lluoedd Arfog Powys ac yn siarad ar ran Partneriaeth Ranbarthol Cyfamod Powys: "Hoffwn gymryd y cyfle hwn ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog ar 27 Mehefin 2020 i gydnabod a rhoi diolch a chefnogaeth o waelod calon i Luoedd Arfog Prydain.

Mae'r Lluoedd Arfog wedi bod yma dros y cyfnod anodd hwn yn genedlaethol ac yma ym Mhowys. Fel arfer, byddem yn nodi Diwrnod y Lluoedd Arfog gyda digwyddiadau ar draws y DU, ond yn anffodus ni fydd hyn yn digwydd eleni.

Fel arfer, byddai Partneriaeth y Cyfamod yn paratoi at Sioe Filwrol Aberhonddu yn Ysgol Frwydro'r Milwyr Troed sy'n dod â phersonél milwrol a'r gymuned yma ym Mhowys at ei gilydd. Gobeithio y gallwn gwrdd eto yn 2021.

Am ragor o wybodaeth am Sioe Awyr Cymru, dathliad digidol, ewch i: www.walesnationalairshow.com

# TUDALEN Y PLANT

Ydych chi yn gallu enwi'r anifeiliaid yma i gyd? Atebion ar Dudalen 15



1.



2.



3.




4.



5.



6.



7.



8.



9.



10.



11.



12

## SWYDDOGION

**Cadeirydd:** John Evans,
Maesmawr, Caersws, SY17 5SB
01686 688 369 neu 07875916304

**Is-Gadeirydd:**
Nia Roberts, Gelli Aur, Sycamore Drive, Y Drenewydd.
01686 628234

**Trysorydd:** Haf Leonard,
8 Dolerw Park Drive, Y Drenewydd
SY16 2BA 01686 628197

**Ysgrifennydd:** Nelian Richards,
Ger y Parc, Dolerw Park Drive,
Y Drenewydd SY16 2BA
01686 627410
nelianrichards@gmail.com

**Teipyddes:** Janis Lewis,
14 Poplar Road, Y Drenewydd
SY16 2QG

**Prif Ddosbarthwr:** Eirian Williams,
Eirwynle, Carno 01686 420364

**Trefnydd Hysbysebion:**
Haf Leonard a Delma Thomas
(628 197) (688 538)

**Tanysgrifiadau drwy'r Post:**
Alwena Gentle, Manora, Ffordd Milford, Y Drenewydd SY16 2BD
01686 626044
alwena.gentle@btinternet.com

**Trefnyddion Clwb y Seren:**
Janis Lewis a Delma Thomas
(688 538)

**Golygyddion:**
John Evans
01686 688369
john@midwalesarts.org.uk
Marlis Jones
01686 688679
marlisjones@btinternet.com
Delma Thomas
01686 688538
delmac.thomas@hotmail.com

**Tanysgrifiadau drwy'r post £17.00**

## CORNEL GARDDIO



Mae garddio yn bwnc enfawr gyda llawer o feysydd astudio arbenigol yn ymdrin ag ystod eang o bynciau.

Mis yma edrychwn ar ddefnydd o'r Tŷ Gwydr, Polytunnel, Cloche neu ffrâm Oer. Mae ein defynydd o'r rhain yn ein galluogi i ymestyn ein tymor tyfu, a all yng Nghymru fod yn fyr ac yn amrywiol ar y gorau. Rydym i gyd yn ymwybodol o effaith Tŷ Gwydr mewn perthynas â chynhesu byd-eang ac mae'r egwyddor hon yn gweithio'n dda gyda Gwydr neu Polycarbon.

Mae'n bwysig cynllunio ymlaen llaw cyn i chi ymrwymo i dŷ gwydr neu debyg. Cofiwch fod angen rhodfeydd arnoch i gael mynediad a fydd yn lleihau'r ardal blannu felly dewiswch dŷ gwydr ehangach.
Mae fframiau alwminiwm yn fwy gwydn na phren ac maent bellach ar gael ym mhob lliw. Yn amlwg mae'r safle'n bwysig iawn ac mae'n well cael man heulog, cysgodol.

Gallwch naill ai dyfu mewn potiau sy'n gofyn am ddyfrio dyddiol ychwanegol yn yr haf braf neu fel arall osod gwelyau dwfn yn y tŷ gwydr sy'n annog systemau gwreiddiau planhigion dyfnach i ffurfio a bydd angen llai o ddyfrio.
Bydd y tŷ gwydr neu debyg yn caniatáu ichi dyfu nifer o gnydau fel Tomatos, Pupurau, Aubergines, ciwcymbr, ac fe fyddwch yn gallu eu cynaeafu. o fis Mehefin i fis Medi / Hydref. Gallwch hefyd dyfu ffrwythau a llysiau eraill sy'n ychwanegiadau pwysig eraill at ddeiet iach.

Fel y soniwyd eisoes mae garddio yn bwnc mor helaeth felly byddwn yn edrych yn fyr ar ofal dau y mis yma sef y toamto a'r ciwcymbyr.

### TOMATOS

Mae'n sicr yn fwy naturiol tyfu tomatos mewn ffin tŷ gwydr nag mewn cynwysyddion. Ond i mi, y fantais fawr o dyfu mewn ffin sydd wedi'i pharatoi'n iawn dros gynwysyddion yw ei bod yn storio digon o ddŵr fel nad yw colli dyfrio am ddiwrnod yn broblem fawr. Un tric o Gymru yw rhoi haen o dail defaid i mewn ar waelod ffin y tŷ gwydr gyda'r compost bob blwyddyn

Mae tail defaid yn cynnwys llawer o botash o'i gymharu â thail anifeiliaid eraill a hen dric arall o Gymru yw gwneud eich porthiant hylif eich hun gan ddefnyddio tail defaid wedi'i ychwanegu at fwced o ddŵr a'i adael i serthu am ddau ddiwrnod gan ei droi o bryd i'w gilydd. Os nad yw'r pridd wedi cael ei newid fel y disgrifir uchod ers ychydig flynyddoedd efallai y cewch broblemau afiechydon yn cronni a diffygion maetholion yn datblygu.



Y Tomatos

Mae gofalu am y cnwd sy'n tyfu yn bwysig iawn ac mae tomatos yn blanhigion llwglyd y mae angen eu bwydo unwaith yr wythnos gyda thail hylif ac mewn amodau poeth dŵr bob dydd os cânt eu tyfu mewn potiau. Peidiwch ag anghofio pinsio pob egin ochr wrth iddynt ymddangos gan y byddant yn mynd yn drwm iawn pan fydd yn ffrwyth llawn.

Hyd yn oed pan fyddant yn cael eu tyfu mewn tŷ gwydr, mae angen help ar y planhigion i aeddfedu'r ffrwythau felly dylech binsio'r tyfiant ochrog pan fydd gan y planhigyn 3 neu 4 “truss” fach o ffrwythau a hefyd gael gwared ar y canghennau dail isaf i ganiatáu i'r haul aeddfedu'r ffrwythau

## CIWCYMBYRS

Gallwch chi dyfu ciwcymbrau yn y ddaear, mewn potiau neu mewn bagiau tyfu. Mae ciwcymbrau cartref yn blasu'n wych. Dewiswch yr amrywiaeth sy'n iawn i chi - gellir tyfu rhai y tu allan, mae gwahanol fathau yn addas ar gyfer y tŷ gwydr.



Y Ciwcymbyrs

Hyfforddwch y prif goesyn i fyny gwifren neu gansen. Pinsiwch y pwynt tyfu pan fydd yn cyrraedd y to. Pinsiwch yr egin ochr, ddwy ddeilen y tu hwnt i flodyn benywaidd (y gellir eu hadnabod gan ffrwythau bach y tu ôl i'r blodyn).

Pinsiwch yr egin ochr di-flodau ar ôl iddynt gyrraedd 60cm (2droedfedd) o hyd. Cadwch y lleithder yn uchel trwy ddyfrio'r llawr ac, ar ôl ei blannu allan, bwydwch wrtaith hylif cytbwys bob 10 -14 diwrnod. Mwy o borthiant tail defaid !!

Mae planhigion ciwcymbr yn gynhyrchwyr toreithiog a dim ond 1 planhigyn fydd ei angen arnoch ar gyfer dau berson ar y mwyaf.

Yna mwynhewch eu bwyta!



Diolch i Andrew Gentle am y Golofn Arddio mis yma.




**HYSBYSEBWCH YN Y SEREN**

# MENYWOD DYLANWADOL

## SARAH JANE REES



Ganwyd Sarah Jane Rees yn Llangrannog yn 1839.

Wel pwy oedd Sarah Jane Rees meddech chi? Roedd yn llawer mwy adnabyddus drwy ei henw barddol **Cranogwen**. Roedd hi yn enwog mewn nifer o feysydd. Roedd ei henw yn adnabyddus fel morwraig, newyddiadurwraig, pregethwraig, bardd ac yn ymgyrchydd arloesol.

Fe'i ganwyd yn oes Fictoria dwy flynedd ar ôl y Freniines Fictoria ddod i'r orsedd.

Pan yn ferch fach yn Llangrannog roedd ei phrif ddiddordeb yn y môr a pherswadiodd ei thad i fynd â hi gydag ef ar y llong roedd yn gapten arni. Bu yn gweithio am ddwy flynedd ar y llong oedd yn hwylio o Gymru i Ffrainc.

Daeth yn ôl i Orllewin Cymru ac fe addysgodd nifer o ddynion ifanc y grefft o forwriaeth.

Yn 1865 daeth yn seren dros nos mewn byd arall sef byd y barddoni, Hi oedd y ferch gyntaf i ennilll gwobr am farddoniaeth yn yr Eisteddfod Gendlaethol drwy guro prif feirdd gwrywaidd y wlad fel Islwyn a Ceiriog. Ei cherdd fuddugol oedd "Y Fodrwy Briodasol". Aeth ymlaen i ysgrifennu rhagor o gerddi a chyhoeddwyd ei chyfrol cyntaf yn 1870

Yn 1879 hi oedd y fenyw gyntaf i olygu cylchgrawn Cymraeg i fenywod - Y Frythones. Roedd hwn yn ymgyrchu dros addysg merched ac roedd ganddo dudalen broblemau hyd yn oed.

Fel golygydd, anogodd Cranogwen dalentau merched eraill hefyd. Aeth nifer o'r awduron benywaidd a gafodd lwyfan ganddi yn Y Frythones ymlaen i ddilyn gyrfaoedd llenyddol llwyddiannus.

Roedd Cranogwen yn wych â'r gair llafar yn ogystal â'r gair ysgrifenedig. Ar adeg pan nad oedd hi'n dderbyniol i fenywod siarad yn gyhoeddus, cychwynnodd yrfa fel darlithydd, ymgyrchydd o blaid dirwest a phregethwraig - gan deithio ledled America ddwywaith.

Yn aml roedd hi'n wynebu gwrthwynebiad sylweddol gan bregethwyr gwrywaidd pan oedd hi'n camu i'r pulpud ond roedd hi'n hynod o boblogaidd gyda chynulleidfaoedd oedd yn cynhesu at ei defnydd bywiog o iaith a chyflwyno grymus.

Roedd dirwest yn fater pwysig i Cranog-wen. Gwelodd effaith goryfed alcohol ar fywyd teuluol yn yr un modd ag y buasem yn gweld peryglon camddefnyddio cyffuriau heddiw.

Yn 1901 sefydlodd Undeb Dirwestol

Merched y De. Erbyn amser ei marwolaeth yn 1916 roedd 140 o ganghennau ledled De Cymru.

Un o'i syniadau mwyaf blaengar oedd lloches i ferched ifanc. Ac er na fu hi byw i weld ei breuddwyd o dŷ i ferched digartref yn cael ei adeiladu, agorwyd y lloches Llety Cranogwen er cof amdani ar ôl ei marwolaeth yng Nghilfynydd yn 1916.

## NEWIDIADAU I BARCIO CEIR YNG NGHANOL TREFI

Mae Cyngor Sir Powys a'r Cynghorau Trefi wedi bod yn cydweithio i weithredu mesurau priodol i gadw pellter diogel fel y bydd siopau'r stryd fawr ac ardaloedd siopa yn y sir yn ail-agor.

Dywedodd y Cynghorydd Heulwen Hulme, yr Aelod Cabinet dros faterion Priffyrdd: “Mae agwedd hyblyg yn hanfodol, gyda'r angen i ystyried y sefyllfaoedd a gofynion amrywiol ym mhob un o'n trefi fel y bydd y cyfyngiadau'r cloi mawr yn cael eu hymlacio, gydag ymwelwyr i ganol ein trefi yn cynyddu a nifer o fusnesau yn gorfod gweithredu'n wahanol.

“Mae'n anochel y bydd ychydig o barcio ar y stryd yn gorfod cael ei aberthu am y tro i ddarparu'n ddiogel ar gyfer siopwyr, ac yn bwysicaf oll i ganiatáu i fusnesau weithredu'n ddiogel o fewn canllawiau presennol y llywodraeth.

“Rydym eisiau helpu ein trefi trwy'r amseroedd anodd hyn ac fe fyddwn, felly, yn darparu ar gyfer o leiaf hanner o unrhyw fannau parcio na chaiff eu defnyddio yn ein hardaloedd siopa o fewn ein meysydd parcio oddi ar y stryd, gyda'r awr gyntaf am ddim.

Bydd y gostyngiad hwn yn cael ei adolygu fel y byddwn yn symud trwy'r cam adferiad.

“Roedd nifer o'n Prif Strydoedd Siopa mewn cyflwr o ddirywiad cyn y pandemig hwn, felly byddai agor y siopau a dyheu, yn syml, am ddychwelyd at y sefyllfa yn union fel yr oedd o'r blaen, heb edrych ar opsiynau eraill a allai gyflwyno gwelliannau i fusnesau lleol a helpu ein Prif Strydoedd Siopa i ffynnu, yn anfaddeuol.

“Mae nifer o'n trigolion wedi dechrau a chynyddu eu gweithgareddau cerdded a seiclo yn ystod cyfnod y cloi mawr, ac rydym eisiau adeiladu ar hyn, gan barhau i gefnogi eu llesiant a gweithio tuag at amgylchedd glanach a gwyrddach i'n trefi, a lleihau'r angen am gymaint o deithiau byrion mewn ceir i mewn i'n trefi ac o'u hamgylch.

“Er bod mesurau diogelwch dros dro yn bwysig iawn yn y tymor byr, a bod angen rheoli'r materion ac effeithiau cysylltiedig yn gywir, dylai ein prif ffocws fod yn troi at fachu'r cyfle hwn i wneud gwelliannau sy'n cefnogi golygfa well i'n strydoedd, sef diwylliant arddull caffis, gan roi pob cyfle i ganol ein trefi i ffynnu yn y dyfodol.”



mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists

## TREFN NEWYDD I ARLWY "CLWB CYLCH"

Yn ystod y mis diwethaf, mae Mudiad Meithrin wedi cyfrannu at weithgarwch Cymraeg yn y cartref trwy ddarparu sesiynau agored dan faner 'Clwb Cylch' (#ClwbCylch) i blant oedran Cylch a'u rhieni trwy lwyfannau digidol – gyda phwyslais penodol ar blant o deuluoedd ble na siaredir y Gymraeg yn y cartref.

Cynhaliwyd sesiwn byw bob bore am 10.00 wedi'i seilio ar brofiad 'Amser Cylch' yn y Cylch Meithrin arferol gydag arweinydd Cylch Meithrin profiadol, gan ddefnyddio cynnwys o gynllun trochi iaith Mudiad Meithrin, Croesi'r Bont a chynllun hyfforddiant Mudiad Meithrin, Academi.

Pleser yw cyhoeddi y bydd sesiynau Clwb Cylch yn parhau o ddiwedd mis Mehefin hyd at ddiwedd mis Awst, gan ddarlledu cyfuniad o sesiynau newydd sbon, ailddarllediad o ambell sesiwn Clwb Cylch blaenorol, detholiad o fideos gan staff cynllun 'Cymraeg i Blant', yn ogystal â fideos newydd a ddarperir gan staff Arweinyddion Ti a Fi Teithiol.

Pwrpas yr arlwy hwn yw cefnogi teuluoedd a diddanu plant mewn modd agored a deinamig gan ddarparu cefnogaeth ymarferol i rieni di -Gymraeg.
Meddai Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin:

"*Nod 'Clwb Cylch' yw ceisio ail-greu peth o hwyl a chynnwrf Cylch Meithrin ar gyfer plant sydd naill ai'n colli allan ar ddarpariaeth ar y funud neu sy'n paratoi at fynd i'r Cylch maes o law. Bydd hyn hefyd yn cyfoethogi arlwy presennol 'Cymraeg i Blant' sydd wedi ei anelu at rieni a gofalwyr wrth iddynt gyflwyno'r Gymraeg i'w plant".*

Mae modd gweld sesiynau Clwb Cylch, Cymraeg i Blant, a Ti a Fi Teithiol ar dudalen Facebook Mudiad Meithrin pob dydd am 10.00 y bore. Bydd yr holl sesiynau i'w gweld ar blatfformau digidol y Mudiad (Facebook/ MudiadMeithrin, trydar@MudiadMeithrin) yn ogystal ag ar adran newydd ar wefan y Mudiad – www.meithrin.cymru/cymraegadre/

HYSBYSEBWCH
YN Y
SEREN

## RHODDION

Edwin O Hughes £12

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am bob rhodd a dderbynnir.

## CLWB Y SEREN MIS AWST / MEDI

Rhif 3 Rwth Foulkes £20
Rhif 38 Nia Roberts £15
Rhif 12 Doreen Thomas £10

## CLWB Y SEREN

Mae Clwb y Seren wedi bod yn dioddef tipyn bach o anhawsterau yn ddiweddar gyda chyfrif y banc. Ond erbyn hyn mae popeth wedi ei sefydlu mewn banc newydd, Felly gofynnir yn garedig i chi sydd wedi derbyn cais i ail setio fyny eich debyd uniongyrchol yn y banc i wneud hynny erbyn dechrau Medi.

A chi sydd yn talu gydag arian parod efallai y medrech chithau adnewyddu eich aelodaeth trwy ddanfon yr arian i Delma neu Janis ym Mis Medi.

Diolch yn fawr i chi gyd a phob lwc yn y misoedd nesaf yma.

## LLANIDLOES

Bethan Lloyd Owen
Cysgod y Coed
Penyborfa, Llanidloes
01686 412242

**GWERTHIANT PERLYSIAU A PHLANHIGION**

Cyflwynwyd siec am £420 i Glwb Rotari Llanidloes a fydd yn mynd tuag at apêl Diffibriliwr yn Llanidloes.
Bob blwyddyn mae Woosnam & Davies News yn Llanidloes yn gwerthu planhigion a blodau gyda'r holl arian yn mynd at achosion da.
John Sheppard (diolch John) sy'n plannu'r hadau a'r toriadau ac yn edrych ar eu hôl.
Rydyn ni'n casglu'r potiau i'w hailddefnyddio trwy gydol y flwyddyn.
“Eleni mae ein cwsmeriaid rhyfeddol wedi ychwanegu at y dewis i'w werthu trwy roi planhigion oedd ganddynt dros ben. Dyma sy'n gwneud cymuned fendigedig yr ydyn ni'n byw ynddi, mae'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr”

#Woosnam #Llanidloes #Staysafe #StayWell
#WeDeliver 01686412263
#Defib #RotaryClub



Trudy Davies yn cyflwyno y siec i gynrychiolydd y Clwb Rotari

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y Seren mis yma.
Mae wedi bod yn ddiddorol iawn i'w roi at ei gilydd.

Mae haul ar fryn




HYSBYSEBWCH YN Y SEREN

Enwau'r Anifeiliaid o Dudalen y Plant

1. Draenog
2. Gwiwer
3. Cwningen
4. Gwahadden
5. Llwynog
6. Mochyn Daear
7. Llygoden
8. Ysgyfarnog
9. Neidr
10. Ystlum
11. Broga
12. Buwch Goch Gwta

# MURLUN YR ARTIST OSIAN GWENT



Yn ddiweddar mae murlun 17.5 troedfedd x 8 troedfedd Llanidloes wedi ymddangos mewn gardd gymunedol sy'n perthyn i Ymddiriedolaeth Iard Compton. Mae'r gwaith yn cynnwys tirnodau adnabyddus ac unigolion amrywiol sy'n lleol i ardal Llanidloes. Mae'r prif bwyslais yn talu teyrnged i'r holl weithwyr hanfodol gan gynnwys y postmon lleol a aeth ar ei rowndiau wedi gwisgo mewn cuddwisg fel pry cop.

Mae'r murlun wedi'i beintio gan yr artist rhyngwladol Osian Gwent. Cysylltodd perchennog y Great Oak Cafe, Scott Ottewill â Osian, gyda'r syniad cychwynnol i ddweud diolch i'r GIG. Ar ôl cwblhau'r gwaith, dywedodd Mr Ottewill, “Ar ôl cael y syniad hwn yn ôl ym mis Mawrth, i ddisodli'r darn celf ingol blaenorol a greodd Osian Gwent ar gyfer Sul y Cofio 2019, sut y dychmygais y ddelwedd orffenedig i edrych, a'r hyn a welwn o'n blaenau heddiw, ni fedrwn â chymharu”.

Mae Osian Gwent wedi cynrychioli pob rhan o fywyd cloi, nid yn unig yn Llanidloes ond ledled y wlad - o'r ffermwyr yn parhau i weithio yn y caeau yn darparu ein bwyd, y dynion bin, manwerthwyr a phostmon yn gwisgo i fyny, y gwasanaethau brys ar y rheng flaen, adeilad y milwyr, ysbytai a gorsafoedd profi ac wrth gwrs y Capten Tom, ond hefyd yn ôl mewn amser i John Wesley yn pregethu wrth y garreg wrth neuadd y farchnad, i'r lleoedd rydyn ni'n eu trysori ac ein bod ni'n ymweld â nhw, fel Argae Clywedog.

“Yn sicr, doeddwn i ddim yn disgwyl y campwaith manwl sydd bellach yn ganolbwynt i'n gardd gaffi arbennig ac rwy'n mawr obeithio y bydd llawer o bobl yn gallu dod i eistedd yng ngardd y GOC ac edmygu'r darn celf hynod brydferth hwn, unwaith y bydd y “cloi i lawr” ar ben” ychwanegodd Mr Ottewil. Parhad.........

Caewyd oriel Osian, 'Art by Osian', oherwydd y "cloi i lawr". "Rhoddais fy amser yn rhad ac am ddim, gan fod hwn yn gyfle perffaith imi anrhydeddu a diolch i'n holl weithwyr hanfodol, sy'n mynd y tu hwnt i hynny ar yr adeg hon. Mae'r cyfan iddi nhw" meddai Osian.

Dechreuodd Osian baentio'r murlun ar Ebrill 15fed a'i gwblhau ar Fehefin 2il. Rhwng popeth, cymerodd 127 awr i beintio o'r dechrau i'r diwedd.

"Rydw i wir wedi mwynhau paentio'r murlun hwn," meddai Osian. "Rwyf wedi cynnwys rhai pethau y byddai pobl leol yn unig yn eu cael. Mae'n feiddgar a lliwgar gyda llinellau diffiniedig. Mae fel llyfr lliwio enfawr gydag onglau persbectif cyfosodedig! Rhaid i fy hoff gymeriad fod yn Vicky y deinosor, a ddaeth â gwên enfawr i'n holl wynebau yn ystod cloi i lawr".
Dywedodd cyd-reolwyr Caffi'r Great Oak, Gail Bell a Robert Plumbley, "Mae'r murlun yn darlunio popeth y mae ein cymuned yn ymwneud ag ef ac yn gwella'r gerddi hardd i'n holl gwsmeriaid eu mwynhau am flynyddoedd i ddod".

Powys

**SESIYNAU HAF I BLANT POWYS**

Bydd sesiynau gweithgareddau i blant ym Mhowys yn cael eu cynnal yn ystod gwyliau'r haf, yn ôl y cyngor sir.

Mae Cyngor Sir Powys wedi trefnu ei Sesiynau Haf i Blant, a gynhelir bob prynhawn yn ystod yr wythnos o ddydd Llun, 27 Gorffennaf i ddydd Gwener, 26 Awst. Bydd y sesiynau'n cael eu cynnal mewn wyth lleoliad ar draws y Sir ac maent yn addas i blant rhwng pump ac 16 oed.

**Mae'r Cyngor yn atgoffa rhieni sy'n weithwyr allweddol y bydd y gofal plant brys a ddarperir ar hyn o bryd gan ysgolion a phum canolfan hamdden ar draws y Sir yn dod i ben ddydd Gwener, Gorffennaf 24.**

Bydd y sesiynau, a fydd yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau Covid-19 Llywodraeth Cymru, yn cael eu cynnal o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 1:30 a 4:30pm. Bydd nifer y lleoedd yn gyfyngedig, felly rhaid i rieni archebu lle eu plentyn ar-lein.

Cynhelir y sesiynau yng nghanolfannau Freedom Leisure yn Aberhonddu, Y Drenewydd, Rhaeadr Gwy, Y Trallwng ac Ystradgynlais yn ogystal ag yn Ysgol Bro Hyddgen (campws uwchradd), Canolfan Ieuenctid Llandrindod ac ysgol gynradd Tref-y-Clawdd.


Dywedodd y Cyng Rachel Powell, Aelod y Cabinet dros wasanaethau plant: "Diolch i'n partneriaethau gyda Freedom Leisure, Activ8Kids a'r Urdd, rydym yn gallu darparu gweithgareddau gwyliau haf i blant mewn lleoliadau ledled y sir.

"Er mwyn i'ch plentyn fynychu, rhaid i chi archebu lle ar-lein erbyn dydd Iau ar gyfer y sesiynau yr wythnos ganlynol.


"Rydym yn gobeithio y bydd y plant yn mwynhau'r gweithgareddau creadigol, hwyliog ac awyr agored, yn gwneud ffrindiau newydd ac yn cael amser gwych!"

Mae lleoedd yn gyfyngedig a chânt eu dyrannu yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.

I archebu lle ac am fwy o wybodaeth ewch i https://cy.powys.gov.uk/article/2045/Dod-o-hyd-i-weithgareddau-gwyliau-ym-Mhowys




HYSBYSEBWCH YN Y SEREN




# BARTI DDU

I Sir Benfro yr awn am chwedl y mis yma.

Ganwyd Bartholomew Roberts yng Nghasnewydd-bach, yn Sir Benfro.
Fel y gwyddoch, ble bynnag y'ch genir yn Sir Benfro dych chi ddim ymhell o'r môr.
Mae'r Sir yn gyfoethog iawn o draethau melyn braf, a chlogwyni ac ogofau cyffrous.
Er fod y Sir yn gyfoethog o'i arfordir, tlawd oedd teulu Bartholomew. Yn aml iawn roedd y bachgen yn mynd allan i chwilio a dal cwnin-god ac hefyd chwilota am bysgod yn yr afonydd.

Roedd cipar y plas ddim yn hapus iawn gyda'r math yma o hel bwyd, ac fe fu yn ceisio ei ddal yn aml, ond roedd Bartholomew yn rhy slic i'r hen gipar.

Treuliodd ei flynyddoedd cynnar ar ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, yn y pentref. Yna pan yn dair ar ddeg oed aeth i'r môr i weithio ar un o'r llongau. Bu yn weithiwr da ar y llong ac o fewn dim roedd yn ffefryn mawr gan y capten, gan ei fod yn "longwr naturiol iawn",

Un tro ger arfordir Ffrainc, aeth ei long wyneb yn wyneb gyda llong arall. Llong ddu oedd hon a buan y sylweddolodd y criw mai llong o fôr ladron oedd. Bu ymladd rhwng y ddau griw a chymrwyd y llong drosodd gan y môr ladron, Trwy glywed Bartholomew yn gweiddi rhywbeth allan yn Gymraeg clywodd capten y môr ladron ef, a gan ei fod yntau yn siarad Cymraeg hefyd fe berswadiodd Bartholemew i ymuno gyda nhw ar eu llong.
Newidodd ei fywyd yn syfrdanol gyda hyn.



Yn ddiweddarach ar farwolaeth y capten fe wnaed Bartholomew yn Gapten ar y llong. Fel Barti Ddu y'i adnabyddwyd ar ôl hyn. Fe fu yn cadw gofal dwys o'r criw. Doedd dim gamblo, rhegi, yfed diod feddwol nac ymladd gyda'i gilydd i fod ar ei long.
Cadwyd y Sul hefyd yn ddiwrnod parchus ac ni fu unrhyw ymosodiad ar longau eraill ar y Sul.
Ymosod a dwyn oddi ar longau môr ladron erill oedd criw Barti Ddu. – ac yn ôl ei grêd "nid dwyn oedd cymryd eiddo lleidr".

Codwyd garreg goffa i Barti Ddu yng nghanol pentref Casnewydd Bach.

Ysgrifennodd I D Hooson gerdd iddo, dyma'r pennill cyntaf
"Barti Ddu o Gasnewy' Bach
Y morwr tal a'r chwerthiniad iach
Efo fydd y llyw
Ar y llong a'r criw
Barti Ddu o Gasnewy' Bach"



## CAERSWS

Delma Thomas
Preseli, Stryd y Capel
Caersws
SY17 5ED
01686 688 538
delmac.thomas@hotmail.com

## MARWOLAETHAU

Cafwyd colledion eto yng Nghaersws dros y mis diwethaf yma.

Ar ôl gwaeledd byr hunodd Melvin Jones yn ysbyty Llanidloes, Dydd Mawrth, Mehefin 23ain. Mae Mel fel y'i adnabyddwyd o Green Villa Caersws yn gadael Ros, gwraig ffyddlon a chariadus, mab Matthew a'i ferch yng nghyfraith Tracey. Roedd yn Daid poblogaidd i Lewis a Holly, ac yn frawd annwyl Haydn a'r diweddar Bryn.
Cynhaliwyd ei angladd yn breifat yn Amlosgfa Aberystwyth a gobeithir trefnu gwasanaeth er cof pan fydd sefyllfa yn caniatau.
Cydymdeimlwn gyda Ros, Mathew a'r teulu i gyd yn eu colled.

Dydd Mawrth, Mehefin 30 clywsom am farwolaeth sydyn Barry Maldwyn Lewis, Gwaelod y Bryn, Llanidloes gynt o Dyffryn Cerist.

Yn frodor o Gaersws roedd Mally fel y'i adnabyddwyd yn y pentref a thu hwnt yn boblogaidd iawn yn yr ardal gyda'i efaill Dilwyn a gladdwyd ychydig flynyddoedd yn ôl.

Cynhaliwyd ei angladd ym Mynwent Tregynon ac fe ddaeth nifer o gyn gyd weithwyr, cymdogion a ffrindiau allan i'r Stryd Fawr yng Nghaersws pan oedd yr angladd yn mynd drwodd ar ei ffordd i'r fynwent.

Cydymdeimlwn yn ddidwyll, gyda Helen ei bartner a Jake. Gyda'i chwaer Sheelagh a'i frodyr George a Gwilym, a'u teuluoedd a theulu y diweddar Dilwyn.

Yna ddechrau'r mis cyhoeddwyd fod Gwilym Evans, Llys Nant, Caersws wedi huno yng nghartref Bethshan, Y Drenewydd. Cynhaliwyd ei angladd ym Mynwent Trefeglwys, dydd Gwener, Gorffennaf 17.
Cydymdeilwn gydag Angela ei ferch a'r teulu i gyd yn ei colled.

'Rydym yn meddwl amdanoch i gyd ar amser trist iawn yn eich bywydau.




## GENEDIGAETH

Dydd Mercher, Mehefin 19fed ganwyd Theodore Vivers Littlehales yn ysbyty Maelor, Wrecsam. Mab i Chloe Hutton a Ben. Mae yn frawd bach newydd i Lee ac yn ŵyr i Glenys Vivers, Maesydre, Caersws ac yn or ŵyr i Ceris Jehu, Maesydre, Caersws.

Llongyfarchiadau cynnes i'r teulu ifanc sydd yn byw yn Llansantffraid.

## CLWB Y SEREN

**Ydych chi yn aelod o Glwb y Seren?**

Mae tair gwobr yn cael eu rhoi bob rhifyn a dim ond £12 ydy'r aelodaeth. Beth amdani?

Dyma ffordd braf o gefnogi eich Papur Bro lleol.
Llenwch y ffurflen isod a'i danfon at Delma Thomas, Preseli, Heol y Capel, CAERSWS. SY17 5ED neu Janis Lewis, 16, Poplar Road, Barnfields, Y Drenewydd SY16 2QG gyda siec o £12 wrth gwrs. Peidiwch anghofio rhoi eich cyfeiriad i ni gael postio y gwobrau i chi.

## CLWB Y SEREN AELOD NEWYDD

Enw: ……………………………………………
Cyfeiriad: ………………………………………….
……………………………………………......
……………………………………………..
……………………………………………..
Rhif Ffôn: …………………………………

# CAERSWS
(Parhad)

## CLWB PÊL DROED CAERSWS

Mae Clwb Pêl-droed Iau Caersws wedi cael tymor anghygoel unwaith eto eleni.

## Y GYNGHRAIR DAN 14 OED

Cyd enillwyr y Gynghrair hon oedd Caersws a Dyffryn Banw y ddau dîm heb golli yr un gêm drwy gydol y tymor. A phan wnaethont gyfarfod a'i gilydd gêm gyfartal oedd hi o dair gôl yr un!



Tîm Pêl-droed Caersws dan 14 oed



Tîm Pêl-droed Caersws dan 13 oed

Roedd Matthew Jones a Simon Cook yr hyfforddwyr yn hapus dros ben gyda'r perfformiadau ac agwedd y chwareuwyr drwy'r tymor.

## Y GYNGHRAIR DAN 13 OED

Yr un fu llwyddiant y tîm dan 13 oed.
Wedi ennill eu cynghrair a hwythau ond yn cystadlu yn eu blwyddyn gyntaf yn gystadleuol. Mae'r hyfforddwyr Tudor Watkins a Carl Lewis yn falch iawn o'r bechgyn.

Rydym ninnau hefyd fel pentrefwyr yn falch iawn o'r ddau dîm. Bydd pêl-droed yn saff yng Nghaersws am ddegawdau eto.
Llongyfarchiadau i chi fechgyn i gyd a'ch hyfforddwyr.

Da iawn chi.

---

**BETH AM HYSBYSEBU YN Y SEREN?**

| | |
|---|---|
| Tudalen llawn | £80 |
| Hanner tudalen | £40 |
| Chwarter tudalen | £20 |
| Wythfed tudalen | £10 |
| Hysbyseb Bach | £5 |

# CORNEL COGINIO



**Fe gofiwch gael y rhan gyntaf y mis diwethaf. Nawr awn am Y PRIF GWRS**

<u>CEBABAU WEDI'U MARINADO</u>

Dyma rywbeth ar gyfer y barbeciw. Mae'n bosib defnyddio unrhyw lysiau, neu gig, yn enwedig cig iâr mewn ciwbiau. Ond fan hyn dw i'n hoffi defnyddio ciwbiau o gaws halwmi (*halloumi* - caws caled o Giprus).

Mae'n bwysig marinadio'r llysiau mewn marinâd da. Mae'n bosib gwneud eich marinâd eich hunain, neu brynu un wedi'i wneud yn barod o'r arch-farchnadoedd.

**Cynhwysion**
(mae'r nifer o'r llysiau dach chi'n eisiau defnyddio yn dibynnu ar faint ydych chi'n angen)

*Ar gyfer y cebabau:*
Madarch meithrin
Pupurau melys melyn a choch
Corbwmpenni (courgettes)
Caws halwmi wedi'u torri mewn ciwbiau o fodfedd sgwâr
Tomatoes tserri
Sialóts
Blodigion broccoli

*Ar gyfer y marinâd:*
1 ½ llwy fwrdd olew olewydd
1 llwy fwrdd finegr mafonen (mae'n bosib achwanegu 50g mafonen fres a finegr i'r cymysgedd)
1 llwy de mêl clir
½ llwy de mwstard Dijon
2 llwy de gruwlys (teim)
Halen a phupur

Paratoi'r llysiau:

Glanhewch y madarch â phapur glân a thynnwch y coesau i ffwrdd.
Sleisiwch y pupurau melys mewn sgwariau tua 2 fodfedd sgwâr.
Gwnewch yr un peth â'r caws a'r corbwmpenni. Piliwch y croen o'r sialóts.

Mae'n bosib berwi y darnau brocoli a'r sialóts am 5 munud ar y mwyaf er mwyn eu meddalu nhw. Bydd yn haws eu coginio nhw ar y gril wedyn.

Paratoi'r marinâd:

Cymysgwch bopeth gyda' u gilydd mewn peiriant blendio bwyd a gorchuddiwch y llysiau â'r marinâd am awr o leiaf.

Wedyn sgiwerwch y llysiau a'r caws ar y sciwerau (gweler nodyn isod!) a thaflwch ar y barbeciw. Gweinwch gyda'ch hoff saws barbeciw

Nodyn: os dŷch chi'n defnyddio sciwerau cebab o bren, mae rhaid i chi eu mwydo nhw mewn dŵr am hanner awr o leia rhag ofn iddyn nhw losgi ar gril y barbeciw.

**Y PWDIN**

Dyma'r rhan mwyaf pwysig o'r pryd bwyd!

**<u>Nectarinau *Pralinées*</u>**

**Cynhwysion**

6 nectarîn
50g almonau wedi'u malu
80g siwgr brown meddal ysgafn
40g menyn neu fargarîn
Pinsiad o halen
Ychydig ddiferion o rinflas fanila

Torrwch y nectarinau mewn haneri a gwaredwch y cerrig. Rhowch mewn sgwâr o ffoil alwminiwm drwch dwbl yr ochr wedi'i torri yn wynebu i fyny. Lapiwch y nectarinau gan adael agoriad.

Toddwch y menyn ar wres isel a chymusgwch y siwgr, almonau, halen a'r rhinflas ynddo.

Â llwy, rhowch y cymysgedd ar ben y nectarinau a chaewch y ffoil gan droelli pen y ffoil a'u rhowch nhw ar y barbeciw am 10 munud.

gan Paul Harry Barron

## Y DRENEWYDD

Diolch i'r unigolion sy'n danfon newyddion o'r Drenewydd. Rydym yn dal i chwilio am berson i fod yng ngofal Colofn y dref

Fel rydym i gyd yn gwybod mae wedi bod yn amser anodd iawn dros y pum mis diwethaf i bawb. Y plant, yr ifanc a'r henoed. Ond mae'n siwr i chi ei bod wedi bod yn anodd iawn i bobl sydd wedi ymgartrefu mewn cartrefi gofal a  chartrefi dan ofalaeth warden. Methu cael eu teuluoedd a'u ffrindiau i ymweld â nhw.

Er hyn i gyd maent yn ddiolchgar iawn.
Yn y llun isod gwelwn rhai o drigolion Llys Glan yr Afon, Y Drenewydd allan yn clapio eu cefnogaeth i weithwyr allweddol ein gwlad.

(Ymddiheuriad nad oedd y llun hwn yn y Seren mis diwethaf.  GOL.)



Trigolion Llys Glan yr Afon tu allan yn clapio eu cefnogaeth i weithwyr allweddol




## O'R SENEDD

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Wrth i'r Haf gyrraedd mae'r pandemig Covid-19 yn parhau. Mae wedi bod yn gyfnod anodd dros ben i ni gyd, cyfnod na fydd unrhyw un yn ei anghofio nac am ei weld eto.
Er bod golau ym mhen draw'r twnnel bellach, i deuluoedd y 2,200+ o bobl y gwyddom eu bod wedi marw yng Nghymru ar ôl cael eu heintio gyda'r feirws, does dim golau na chysur yn debygol o fod am gryn amser eto .
Mae cymaint wedi digwydd ers fy niweddariad misol diwethaf - mae sawl siop "dianghenraid" wedi ailagor eu drysau, mae plant yn ôl yn yr ysgol, mae'r cyfyngiadau teithio pum milltir (a oedd yn gwbl anaddas i'w diben yng nghefn gwlad Sir Drefaldwyn yn fy marn i) wedi'u llacio, rydym bellach yn cael ffurfio "swigod cymdeithasol" gydag un aelwyd arall i weld teulu neu ffrindiau nad ydym ni wedi'u gweld ers dros dri mis, a bydd y diwydiant lletygarwch yn dechrau ailagor ei ddrysau o 13 Gorffennaf.
Wrth lwc, mae'r argyfwng iechyd cyhoeddus a achoswyd gan Covid-19 yn debygol o basio, ond mae'r argyfwng economaidd a ddaeth yn ei sgil yn debygol o bara'n llawer hirach, ond law yn llaw â'r adeg hon i fyfyrio, mae angen i ni weithredu.

Er bod y Llywodraeth yn llygad ei lle yn canolbwyntio ar achub bywydau a diogelu'r GIG yn y lle cyntaf, mae'n rhaid i ni nawr ailagor cyn gynted â phosibl mewn ffordd ddiogel a mesuradwy, er mwyn i ni allu rhoi ein heconomi yn ôl ar y llwybr iawn i achub bywoliaethau a bywydau.

## DIOLCH I'N HOLL WEITHWYR ALLWEDDOL

Ysgrifennodd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a Fferylliaeth Gymunedol Cymru ataf i er mwyn tynnu sylw at yr hyn y mae fferyllfeydd cymunedol wedi bod yn ei wneud ledled Cymru yn ystod yr argyfwng sydd ohoni. Maent wedi bod ar y rheng flaen wrth gefnogi cleifion a'r GIG.

Roeddwn i'n falch o dderbyn gwahoddiad i ymweld a chyfarfod, gan gadw pellter cymdeithasol, â staff Fferyllfa Llanidloes yn ystod y mis diwethaf i drafod yr anawsterau maent wedi'u hwynebu yn ystod y pandemig Covid-19 a dysgu pa wasanaethau y maent wedi bod yn eu cynnig.



Dylan Jones yn y Siop Fferyllydd gyda Russell George

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n holl weithwyr allweddol sydd wedi cynnal curiad calon Sir Drefaldwyn yn ystod yr adeg anodd hon.

## EIN SIOEAU HAF

Er fy mod yn aros am gadarnhad terfynol gan rai trefnwyr, mae'n debyg y bydd y rhan fwyaf o'n sioeau haf yma yng Ngogledd Powys, os nad pob un, yn cael eu heffeithio gan reolau cadw pellter cymdeithasol pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau o ran cynulliadau torfol.

Rwy'n drist iawn am hyn gan fy mod yn ceisio mynychu pob un gan ei bod yn ffordd ddefnyddiol o ymgysylltu â phobl a chymunedau o gwmpas Sir Drefaldwyn. Yn anffodus, ni fydd y Sioe Fawr yn ddiweddarach yn y mis yn cael ei chynnal chwaith.

Rwy'n awyddus iawn i Lywodraeth Cymru ddarparu cefnogaeth ariannol i drefnwyr sioeau, ac mae hwn yn fater rwyf wedi'i godi gyda'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru.

Yn y Senedd, rwyf yn bwriadu crybwyll yr angen i wasanaethau bysiau gwledig gael eu cefnogi a thynnu sylw at sut mae colli'r gwasanaeth penodol hwn yn cael effaith negyddol yn ein hardal. Rwyf hefyd yn codi'r mater gyda Chyngor Sir Powys i weld beth, os unrhyw beth, y gall y Cyngor ei wneud i gadw'r gwasanaeth bws pwysig hwn.

Russell George



**TREFEGLWYS**
Margaret Jones
Maestrefgomer Cottage
Trefeglwys
01686 430 474

## EISTEDDFOD TREFEGLWYS

Yn dilyn y sefyllfa bresennol ynglyn a'r pandemig, y canllawiau ar gyfer plant ysgol a'r ymbellhau cymdeithasol mae Pwyllgor Eisteddfod Trefeglwys wedi gwneud y penderfyniad anodd i ohirio'r Eisteddfod eleni. Ond rydym er hynny wedi paratoi cystadlaethau ar gyfer y plant lleol i gadw diddordeb dros wyliau'r Haf. Am fwy o wybodaeth am y cystadlaethau yma cy-sylltwch a Margaret ar 01686 430474.

## Y LLEW COCH

Yn ystod y cyfnod clo yma mae tafarn lleol Y Llew Coch wedi cael ei ailwampio ac yn disgwyl cael ail agor ar ddechrau mis Awst. Fe fydd dan reolaeth newydd Sarah Farrington.
Dymuniadau gorau a chroeso iddi hi a'r tîm i'r pentref.

HYSBYSEBWCH
YN Y
SEREN

## NEGES I WEITHWYR CYMDEITHASOL

Mae Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Powys yn chwilio am weithwyr cymdeithasol cymwys i ymuno â'u timau.

Mae'r gwasanaeth yn gwella'n gyflym ac yn cyflawni'r deilliannau gorau i blant a phobl ifanc trwy ddefnyddio Fframwaith Arwyddion Diogelwch. Mae'r gwasanaeth yn cynnig pecyn atyniadol i Weithwyr Cymdeithasol, gyda chefnogaeth a goruchwyliaeth ragorol.

Rydym hefyd yn cynnig taliad atodol ar sail y farchnad i staff newydd a'r rheiny sy'n gweithio i ni'n barod ar gyfer rhai swyddi sy'n anodd eu llenwi.

Mae cyfleoedd swyddi ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol ar draws ein timau ym Mhowys. Hefyd mae swydd Uwch-weithwyr Cymdeithasol a Phrif Weithiwr Cymdeithasol ar gael yn ein Tîm Gofal Trwodd yng Ngogledd Powys.

Dywedodd y Cynghorydd Rachel Powell, Aelod y Cabinet ar faterion Gwasanaethau Plant: "Rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r deilliannau gorau i blant, pobl ifanc a theuluoedd Powys.

Felly os hoffech chi gael swydd newydd, gyda chyfle i wneud gwahaniaeth cadarnhaol byddem wrth ein bodd yn clywed gennych."

Ewch i weld ein tudalen swyddi am fwy o wybodaeth - www.powys.gov.uk.swyddi

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y Seren mis yma.
Mae wedi bod yn ddiddorol iawn i'w roi at ei gilydd.

Mae haul ar fryn




Nid yw Golygyddion na Phwyllgor Seren Hafren o anghenraid yn cytuno gydag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn.
Gol.



# JÔC FACH I GADW CHI’N HAPUS



Sais yn symud fewn i fyw i bentref bach ym Maldwyn yn diweddar, a dyma un o gewri y Capel lleol yn gofyn iddo a fyddai yn hoffi ymuno gyda nhw yn y capel ar y Sul canlynol.. “Wel” meddai’r Sais yn ei iaith fain ei hun “ond fyddai i ddim yn deall eich iaith achos yn Gymraeg mae eich gwasanaeth ynte?”. “O ie”, meddai’r Cymro “ond yn Saesneg mae’r casgliad”

Jac yn mynd at y barbwr ar ôl pum mis yn ynysu gyda’i wallt a’i farf yn fwy blêr na fu erioed. “Wel, faint yw e’n mynd i gostio i dorri fy ngwallt?”, meddai. “Deg punt “ meddai’r barbwr. A faint fydd o i shafio fy marf” gofynnodd.”O rhyw bum punt” atebodd y barbwr. “Iawn te, shafiwch fy mhen!”

Hen wraig yn dweud wrth ei ffrind “Dwi wedi cael *hearing aid* newydd nawr, y gore yn y byd”. “Roedd yn ddrud iawn ond mae yn gweithio yn wyrthiol”. “O da iawn” meddai ffrind “Faint gostiodd i te?”
“Hanner awr wedi deg”

Rees Astley

Broceriaid Yswiriant a Chynghorwyr Ariannol Annibynnol

**Am eich holl anghenion ariannol, o yswiriant busnes i fuddsoddiadau.**

Tŷ Mostyn,
4 Stryd y Farchnad,
Y Drenewydd,
Powys SY16 2PQ

Ffôn – 01686 626616
Ffacs – 01686 628457
e-bost - newtown@reesastley.co.uk

www.reesastley.co.uk

Swyddfeydd hefyd yn Aberystwyth a’r Amwythig

BIBA

## Y DRENEWYDD

Diolch i'r unigolion sy'n danfon newyddion o'r Drenewydd. Rydym yn dal i chwilio am berson i fod yng ngofal Colofn y dref

### CYFARFOD BLYNYDDOL SEREN HAFREN

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Seren ar Zoom. Profiad newydd eto i'r Papur Bro. Mae'r oes digidol wedi cyrraedd pawb ohonom erbyn hyn. Mae'r unfed ganrif ar hugain wedi gwir gyrraedd: y Seren - ar lein a ninnau y pwyllgor yn cwrdd ar Zoom. Hysbysebwyd y cyfarfod ar lein i unrhywun ymuno ond dim ond y pwyllgor arferol a wnaeth. Byddai yn hyfryd cael rhagor o rhai ifanc i ymuno â ni.

Ar ôl cytuno bod y cofnodion yn gywir o'r pwyllgor blynyddol diwethaf aethpwyd ymlaen i ail ethol swyddogion.

Cynigwyd ail ethol pawb.
Cadeirydd: John Evans
Is Gadeirydd: Nia Roberts
Ysgrifennydd:
Nelian Richards
Trysorydd: Haf Leonard
Teipyddes: Janis Lewis
Prif Ddosbarthwr:
Eirian Williams
Trefnydd Hysbysebion: Haf Leonard a Delma
Tanysgrifiadau drwy'r Post: Alwena Gentle
Trefnyddion Clwb y Seren: Janis Lewis a Delma
Golygyddion: John Evans Marlis Jones, a Delma

Roedd pawb o'r farn bod y Seren ar ei newydd wêdd wrth gael ei argraffu yn rhannol mewn lliw yn llwyddiant. Mae Clwb y Seren wedi ail sefydlu ond yn dal i edrych am aelodau newydd. Dim ond £12 y flwyddyn a siawns i ennill un o dair gwobr yn fisol.

Bydd y Seren nôl mewn print o ddiwedd Medi ymlaen yn ôl yr arfer. Os dymuna rhywun ei dderbyn ar lein yn lle drwy'r post yna cysylltwch â ni.
Diolchodd John i bawb ymunodd yn y pwyllgor yma ar Zoom.

## PENFFFORDDLAS

Falmai Puw Davis
Craignant, Nantmel LD1 6EW
01597 810 864
Ann Griffiths, Braichyfedw
Penfforddlas. 01686 430 435

### Y GANOLFAN

Bu'r ganolfan awyr agored yn wag ers 2018. Newyddion da yw'r ffaith i ddau berson busnes brynu'r ganolfan. Mae Polly Clark a Phill Stasiw wedi bod yn annog pobl i ymweld â'r canolbarth ers pymtheg mlynedd. Y bwriad yw datblygu'r lle yn ganolfan feicio mynydd traws- gwlad gyda lle i dri deg pump o welyau. Syniad da mewn lle delfrydol. Bwriedi'r galw'r ganolfan yn "Y Llety" Penfforddlas. Y gobaith yw y byddant yn barod i agor yn hwyrach yn y flwyddyn. Pob llwyddiant i'r fenter.

### CYDYMDEIMLAD

Pryder i ni fel ardal yw clywed am farw sydyn Kit Pugh, Esgairgoch. Yn ein Rhifyn diwethaf, roeddem yn dymuno'n dda i'w gŵr Dei. Mae yntau mewn oedran teg. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf iddo a'r teulu ar yr adeg anodd yma. Meddyliwn hefyd am Emyr a Graham a Carol a'u teuluoedd o golli Mam.

### CADW'N SAFF

Y cyfarwyddid o hyd yw cadw'n saff gan fod Y Cofid yma i aros. Mwynhewch yr haf, a diolch am bob dymuniad da a ddaeth i Nantmel dros gyfnod anodd.



# TUDALEN Y PLANT

Faint o'r geiriau isod chi'n gallu ffeindio yn y grid geiriau.
Mae nhw gyd yn ymwneud â phobl sy'n ein helpu.

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O | Î | DD | N | O | M | T | S | O | P | S | R | Y | N | T |
| D | P | Â | R | W | D | A | L | I | E | D | A | W | Â | Ê |
| P | Y | T | Ê | W | U | P | E | V | J | N | N | D | RH | Î |
| O | DD | N | E | H | P | K | J | Â | U | F | Y | A | G | O |
| P | Y | FF | S | G | C | J | K | LL | M | N | B | X | Â | R |
| I | T | E | S | B | Y | P | C | Ê | LL | Î | O | N | A | TH |
| L | N | R | D | Q | W | DD | L | A | G | Y | DD | E | M | A |
| O | I | M | Ô | Y | PH | R | E | I | U | E | Ô | H | C | L |
| L | E | W | V | G | N | TH | I | A | S | H | PH | E | A | Ê |
| N | D | R | Â | I | B | T | TH | E | W | M | H | B | N | V |
| Y | F | Ê | R | P | I | R | A | Ê | L | C | O | Â | D | R |
| D | Ô | E | O | H | A | Ô | A | N | A | D | F | N | R | LL |
| N | A | B | FF | W | D | O | L | O | E | Ô | C | I | Î | Ê |
| S | Y | T | E | L | Ê | P | N | D | Ê | DD | NG | Y | B | V |
| DD | F | S | I | A | G | M | Â | T | N | Â | D | U | N | B |



PLISMON POSTMON ATHRAWES NYRS
DEINTYDD MEDDYG POBYDD SAER
DYNLLAETH DYNTAN OPTEGYDD ATHRO
DYNLOLIPOP FFERMWR ADEILADWR
DYNSBWRIEL






**DYSGU CYMRAEG**
**YSGOL HAF**

Bu Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr yn cynnal Ysgol Haf 3 diwrnod i ddysgwyr ar ddechrau Mis Gorffennaf.

Roedd dros 200 o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau o lefel Blasu i Hyfedredd. Roedd pob diwrnod yn cael 3 x sesiwn awr a hanner yn dilyn naill ai cwrs y De neu'r Gogledd. Nid yn unig oedd y dysgwyr yn dod o ardal y darpariaeth. Gan oedd y cyrsiau trwy fforwm Zoom roedd cyfle i ddysgwyr o ardaloedd eraill yng Nghymru ymuno â ni a hefyd o ardaloedd yn Lloegr; Sir Efrog, Stockport, Southampton ac eraill a phob un gyda rheswm gwahanol dros ddysgu'r iaith ac yn galonogol eisiau parhau ym Mis Medi – Dyma potensial dysgu o bell. Rhywbeth efallai nad oedden ni wedi meddwl amdani o'r blaen.

Bydd cyrsiau newydd **Cyfunol** yn dechrau trwy Zoom o fis Medi ar ôl eu peilota yn ystod y cyfnod cloi. Dros Gymru roedd dros 1000 o bobl wedi ymuno a'r cyrsiau newydd yma gyda llawer iawn yn bwriadu parhau eu taith dysgu Cymraeg ym Mis Medi. Byddwn ni hefyd yn cynnig cyrsiau Mynediad newydd trwy Zoom am y flwyddyn gyfan fel ymateb i'r Pandemic. Bydd y cyrsiau eraill yn dechrau trwy Zoom ym Mis Medi a gan obeithio byddwn ni'n gallu mynd yn ôl i wersi wyneb yn wyneb yn ystod tymor y Gwanwyn.

**CYNLLUN SIARAD**

Rydym yn chwilio am siaradwyr i'n helpu ni gyda'r cynllun uchod. Bydd dysgwr sy'n siarad Cymraeg yn paru gyda siaradwr er mwyn ymarfer sgwrsio. Ar hyn o bryd rydym yn trafod sut i gynnal y cynllun o fewn y cyfyngiadau presennol ond os oes gennych chi ddiddordeb cefnogi dysgwyr yn yr ardal cysylltwch â Debbie Gilbert ar dlg3@aber.ac.uk


**DIGWYDDIADAU:**

**Sesiwn fyw gyda Fiona Collins – Dysgwr y flwyddyn 2019. 18:30pm i ymuno cysylltwch a Mererid Roberts mhr7@aber.ac.uk**

**Clwb Hwb** – clwb sgwrsio i ddysgwyr o bob lefel. Bob dydd Mawrth am 10-11am. **Cysylltwch â Mererid mhr7@aber.ac.uk am wahoddiad**

**Clwb Hwb Nos** i lefelau Sylfaen ac uwch. Bob yn ail Nos Iau 16, 30 Gorffennaf / 13, 27 Awst 20:00-21:00pm. Cysylltwch â Mererid mhr7@aber.ac.uk

**Cwis Dysgu Cymraeg Maldwyn 31.7.30 am 19:00 pm-** Addas i bob lefel a siaradwyr **Cysylltwch a Mererid Roberts mhr7@aber.ac.uk**



## LLANIDLOES

Bethan Lloyd Owen
Cysgod y Coed
Penyborfa, Llanidloes
01686 412242

### COLLED ENFAWR

Teyrnged i Joy Whittick, Pencloddiau, Llangurig

Trist yw cofnodi i Lanidloes a'r Cylch golli cyfaill annwyl, didwyll, cydwybodol, ymroddgar ac unigolyn oedd yn deyrngar a mor gefnogol a gweithgar dros yr iaith Gymraeg a thraddodiadau Cymru. Cyfeirio at yr annwyl Joy Whittick ydw i. Bu'n gyfaill arbennig i mi ers tri deg pump o flynyddoedd. Gwyddwn am ymdrech arbennig Joy ac Alan ei gŵr i ddysgu'r iaith Gymraeg pan ddaethant i'r Canolbarth ac yna i Faldwyn yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf ac yn wir edmygais a pharchais eu hymroddiad a'u dycnwch tuag at ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg a'u parch a'u teyrngarwch tuag at draddodiadau Cymru.

Yn fuan wedi dod i'r Canolbarth prynwyd Pen-cloddiau, Llangurig gan Alan a Joy. Mae Pencloddiau mewn llecyn hyfryd ar Blynlimon ac roedd y teulu wrth eu bodd ynghanol cefn gwlad Maldwyn ac ymysg y bywyd gwyllt o'u hamgylch.

Yn ogystal roedd Joy wrth eu bodd efo'r merlod oedd yn eu perchen a gofalai'n dyner amdanynt dros y blynyddoedd.
Cyn genedigaeth eu meibion bu Alan a hithau'n rhedeg y Ganolfan Ieuenctid yn Llanidloes ac roeddynt ill dau'n boblogaidd iawn ymysg yr ieuenctid a doedd dim byd yn ormod o drafferth ganddynt i hyrwyddo mwynhad a phrofiadau gawsai'r ieuenctid yn eu gofal.
Ganwyd Emlyn yn 1984 a Ioan yn 1986. Yn fuan wedi i Ioan fynd i'r Cylch Meithrin yn Llanidloes gwelodd Joy fod angen arweinydd ar y "Cylch."
Gwnaeth waith arbennig yno a dyna pryd y daethum i'n gyfaill agos iddi. Roedd Huw, fy mab hynaf, wrth ei fodd yn ei gofal yn y Cylch Meithrin. Ar yr un pryd daeth yn ffrind agos iawn efo Ioan, ei mab ieuengaf, a chofiaf y ddau efo'u capiau stabl ac am fod yng nghwmpeini ei gilydd pob cyfle posib! Dyddiau difyr reit siwr.

Yn fuan wedi hyn daeth bwlch ac angen i gael arweinydd ar gylch Meithrin Trefeglwys. Pwy ddaeth i lanw'r bwlch gofynwch? Ie, Joy reit siwr a gwnaeth waith rhyfeddol yn rhedeg y ddau gylch am beth amser. Doedd dim yn ormod ganddi byth.

Byddai'n fy nghynorthwyo i'n fawr yn sicrhau fod Huw yn cael ei gludo at fy mam yng nghyfraith oedd yn ei warchod i mi wedi'r Cylch yn Nhrefeglwys gan y byddwn i wrth fy ngwaith yn dysgu yn Nhrefeglwys.

Yn ogystal byddai'n gwarchod Huw a Rhys i mi pan fyddai fy mam-yng nghyfraith yn sâl neu'n gorfod mynd i apwyntiadau ac ati. Roedd hyn yn wych i mi a byddai'r cogiau'n hapus dros ben pan fyddai Joy yn eu gwarchod. Does gennyf ond diolch didwyll iddi am yr amser gyfranodd i'm cynorthwyo a'r teulu.
Ymhen rhyw ddwy flynedd wedyn aeth i weithio yn Ysgol Gynradd Llanidloes am ychydig cyn ymuno â'r staff yn Ysgol Gynradd Trefeglwys/ Ysgol Dyffryn Trannon. Roedd yn gymhorthydd heb ei hail a braf fu cael cyd-weithio gyda hi. Mi roedd hi bob amser yn drwyadl, gofalus, anogol, caredig a theg efo'r disgyblion a'r staff. Bu'n llywodraethwraig yn Ysgol Trefeglwys / Dyffryn Trannon am nifer o flynyddoedd ac unwaith eto'n cyflawni ei gwaith gyda graen.

Enillodd barch mawr ymysg y staff ynghyd â'r disgyblion gafodd y fraint o'i llafur a'i gwaith yn eu haddysgu, eu hanogi a'u herio. (Parhad……)

(Parhad o'r dudalen flaenorol)

Diolch yn fawr Mrs Whittick," glywid gwers ar ôl gwers.

Yn ogystal â'i gwaith dyddiol byddai'n cadw merlod, cŵn a chathod ac wedi cyrraedd adre byddai'n bwydo, ymarfer a gofalu am yr anifeiliaid gyda'i holl egni a byddai wrth ei bodd yn eu plith.

Wedi ymddeol bu'n teithio i ymweld â theulu a ffrindiau a threulio mwy o amser gyda'i meibion a'u partneriaid a'i hanifeiliaid hoff.

Yn ystod y flwyddyn a hanner ddiwethaf ni fu ei hiechyd yn wych a dros y misoedd diwethaf gwaelodd yn sydyn. Bydd colled fawr ar ôl Joy yn y rhan hon o Faldwyn a chydymdeimlir yn ddiffuant gyda'i gŵr Alan, ei meibion Emlyn a Ioan a'u partneriaid, ei chwiorydd, ei brawd a'r cysylltiadau oll, yn deulu, ffrindiau a'i holl gydnabod yn eu colled lem.

Fel nodwyd gan y teulu –
"Er cof am rywun a garodd cymaint ei gwlad a'i hiaith, ei theulu, ei chynefin a'r byd natur.
Diolch o galon i bawb am eich cefnogaeth, cariad a pharch.
Colled annisgrifiadwy."

Byddaf yn colli ei chwmniaeth, ei hiwmor a'i diffiantrwydd a da yw gennyf allu dweud mai braint i mi fu ei hadnabod a bod yn ffrind i un mor annwyl ac fel ei theulu oll gallaf gydfynegi gyda nhw -
*"Yn dawel yr hiraethwn*
*Ond gyda chariad y cofiwn."*

**DATHLU'R 100 OED**

Cyn i'r "Seren" nesaf gael ei argraffu bydd un gwraig yn Llanidloes yma wedi cyrraedd ei Chanfed Penblwydd.

Hoffem ddymuno'r gorau i Lora Pugh, Celyn, Gerddi Suburb, ar y dathliad arbennig hyn ar Fedi'r 6ed. Bydd yn haeddu cael mwynhau cyrraedd yr oedran teg hyn am ddyddiau ac wythnosau lawer reit siwr.

Mae Lora'n wraig ddiwylliedig a chefnogol i bob dim cymdeithasol ac yn aelod ffyddlon a gweithredol dros ben ar draws y blynyddoedd i Eglwys Heol China.

Bydd yn darllen y "Seren" bob mis ers ei ddechrau a bu'n aelod o Glwb y Seren ers ei sefydlu. Pob bendith i chi Lora ar gyrraedd y garreg filltir hon. Bydd yn achlysur arbennig i chi a'r teulu a mwynhewch pob munud.

Pob dymuniad da i chi i'r dyfodol oddi wrth pawb o'ch teulu, eich cydnabod ymhell ag agos, a phawb o'ch cydnabod yn Llanidloes ac yn wir oddi wrth holl ddarllenwyr y "Seren." Mwynhewch a dathlwch.

**GWYLIAU HAF YR YSGOLION**

Anfonir dymuniadau gorau i ddisgyblion, athrawon a staff yr Ysgolion lleol sydd wedi cael blwyddyn Ysgol llawn sialensau. Bu staff y ddwy Ysgol yn gweithio'n galed yn ystod y pum mis diwethaf yn ystod y cyfnod Coronofeirws hyn ddaeth i'n rhan ac estynnir pob dymuniad da am wyliau Haf pleserus iddynt a mawr obeithio bydd y flwyddyn ysgol newydd yn llawer haws a phethau'n ôl i'r drefn newydd "Normal." Diolch yn fawr am eich gofal ac ymdrech i gadw'r addysgu i fynd ac i ofalu am aelodau o'r Gymdeithas mewn gwahanol ffurfiau.




HYSBYSEBWCH
YN Y
SEREN



# SIALENS DDARLLEN YR HAF—"SGWAD GWIRION"

Mae plant Powys yn cael eu hannog i barhau i ddarllen dros wyliau'r haf, trwy ymuno â sialens ddarllen yr haf 'Sgwad Gwirion'!
Dechreuodd y sialens ar ddydd Gwener 17 Gorffennaf a bydd yn para tan ddydd Sadwrn 12 Medi.

Fel arfer, llyfrgelloedd sy'n gyfrifol am y sialens, ac eleni mae dwy ffordd i gymryd rhan:

- Cofrestru ar-lein yn www.sillysquad.org.uk a dewis faint o lyfrau ry-dych yn mynd i ddar-llen. Gall y rhain fod yn llyfrau o adref neu e-lyfrau o safle Borrowbox y llyfrgell.

- Ymuno ac archebu rhai llyfrau o'r llyfrgell – ewch I
- www.powys.gov.uk/orderandcollectbooks neu ffonio 01597 827460 i archebu bag llyfrau "Sgwad Gwirion" sy'n cynnwys chwe llyfr o'r llyfrgell i'w darllen dros y gwyliau.

Gallwch gasglu bagiau llyfrau o lyfrgelloedd 'archebu a chasglu' ar draws Powys ac mae mannau casglu cymunedol mewn ardaloedd eraill hefyd.
Dywedodd y Cynghorydd Rachel Powell, Aelod Portffolio - Pobl Ifanc, Diwylliant a Hamdden: "Mae darllen i'r plant yn helpu gyda'u datblygiad ac yn gwella eu sgiliau cymdeithasol.

Wrth i fabanod eich clywed a'ch gweld chi'n siarad, byddant yn ceisio copïo edrychiadau a synau, gan gynnwys dysgu sgiliau cymdeithasol wrth gymryd tro i sgwrsio. Bydd darllen gyda'ch gilydd a thrafod llyfrau un ai yn ôl y cynnwys neu drwy luniau yn eu helpu i ddatblygu a bydd y manteision yn para am oes.

"Mae llwyth o lyfrau llafar ar gael hefyd sy'n helpu i ddatblygu geirfa a sgiliau cyfathrebu da.

Bydd sialens ddarllen yr haf ychydig yn wahanol eleni gan na fydd y llyfrgelloedd ar agor i bori trwy lyfrau a chael amser stori. Mae dwy ffordd i gymryd rhan yn ddiogel a mwynhau rhai llyfrau gwych dros y gwyliau."

Bydd Gwasanaeth Llyfrgelloedd Powys yn annog teuluoedd i ddarllen gyda'i gilydd am hwyl dros wyliau'r haf ac yn cynnal digwyddiadau digidol ar dudalen Facebook i blant dros y gwyliau - www.facebook.com/buddingreaders

Am ragor o wybodaeth ewch i https://en.powys.gov.uk/summerreadingchallenge neu cysylltwch â'r gwasan-aeth llyfrgelloedd ar library@powys.gov.uk neu



## A WYDDOCH CHI?

Nawr fod y rheol cyfyngu i bum milltir o'ch cartref wedi codi mae pobl yn dechrau tyrru allan i'r wlad ac i lan y môr.

Mae'r carafanau a'r cartrefi ar olwynion i gyd wedi dod allan i'n ffyrdd.

A wyddoch chi fod yr enw carafan yn mynd yn ôl i'r unfed ganrif ar bymtheg pan oedd grwpiau o bobl yn trafaelio gyda'i gilydd.

Ond yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg y daeth y garafan ar gyfer pleser. Tynnwyd y garafan y pryd hynny gan geffyl. Yna yn 1919 gwelwyd car yn tynnu carafan am y tro cyntaf.

Yna yn pum degau y ganrif ddiwethaf dechreuodd "statics" ddod yn boblogaidd, ac erbyn heddiw mae dros 365,000 ohonynt ym Mhrydain.

Fel Prydeinwyr rydym yn gwario 50 miliwn o nosweithiau mewn carafanau bob blwyddyn.


## HYSBYSEBWCH YN Y SEREN

Tudalen llawn £80

Hanner tudalen £40

Chwarter tudalen £20

Wythfed tudalen £10

Hysbyseb Bach £5





Yn ôl yr arfer ni fydd Seren yn ymddangos nawr tan ddiwedd Medi.
Gobeithir printio y rhifyn hynny a'i ddosbarthu fel arfer drwy'r siopau.

Fe fydd yn bosib i chi ddal ei dderbyn ar lein os dyna yw eich dymuniad. Cysylltwch a mi ac mi wnawn drefniadau cyn diwedd Medi.

delmac.thomas@hotmail.com

HYSBYSEBWCH
YN Y
SEREN

Dyma ni eto wedi cael rhai tudalennau ynghyd i'ch diddori (gobeithio),
Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu, a chroeso eto i unrhyw un ohonoch ddanfon atom erthygl, stori, pos bach, cerdd, llun, jôc fach neu unrhyw beth o'ch dewis chi. Dyma eich cyfle ewch ati danfonwch nhw ataf i delmac.thomas@hotmail.com
Eto diolch yn fawr iawn i chi gyd.

Edrychwch ar ôl eich hunain.
Daliwch ati, Mae pethau yn gwella ond maen rhaid bod yn ofalus
Cadwch at eich gofod a golchwch eich dwylo.

Mae Haul ar Fryn



